

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)**

**Abertawe Bro Morgannwg  
Bwrdd Iechyd Prifysgol.  
Deintyddfa Bracla**

7 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.  
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163

**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)

**Ffacs:** 0300 062 8387

**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Introduction .....	2
2.	Context.....	3
3.	Summary.....	4
4.	Findings .....	5
	Quality of the Patient Experience .....	5
	Delivery of Safe and Effective Care.....	7
	Quality of Management and Leadership.....	11
5.	Next Steps.....	13
6.	Methodology.....	14
	Appendix A .....	16

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Ddeintyddfa Bracla yn 10, Whitethorn Drive, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 2PQ ar 7 Mawrth 2016.].

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Deintyddfa Bracla yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Bracla yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr yng Ngorllewin Morgannwg. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Deintyddfa Bracla yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm o staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, un therapydd deintyddol, pum nyrs ddeintyddol (gan gynnwys rheolwr y practis) a dau dderbynydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

### 3. Crynodeb

Mae Deintyddfa Bracla yn sefydliad deintyddol modern ac arloesol, sydd â digon o offer, ac sy'n ymrwymo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd eang ac addysgiadol, sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr iawn gan gleifion newydd a chleifion sefydlog.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddogaethau ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi'u cyfarparu'n dda, yn lân ac yn daclus
- Roedd trefniadau ar waith i gynnal sganiau pelydr-X yn ddiogel
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau, eu sterileiddio a'u cadw'n briodol
- Darparu amrywiaeth o daflenni addysgol ar gyfer eu cleifion
- Cynnal gwefan y practis i hysbysu a rhoi cyngor i gleifion.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wneud y gwelliannau canlynol:

- Rhoi swyddogaethau dynodedig i staff pe bai argyfwng yn codi
- Cofnodi nodiadau cleifion
- Cynnal archwiliadau gan gymheiriaid o gofnodion clinigol i sicrhau cysondeb.

## Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

Dangosodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r rheini a oedd wedi cwblhau'r holiaduron eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y **practis**. **Gwelsom y ffordd gyfeillgar a phroffesiynol y siaradodd staff â chleifion wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Mae'r holl staff wedi ymdrechu i hyrwyddo arferion gorau a buddsoddwyd mewn addysg a hyfforddiant y staff i wella ymhellach ar ansawdd profiad y claf.**

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

*"Mae'r staff yn gymwynasgar iawn ym mhob un agwedd ar fy nhriniaeth."*

*"Mae'r gwasanaeth yn rhagorol bob amser, maent yn esbonio'r triniaethau ac yn trafod y dewisiadau."*

*"Roedd yr wybodaeth a dderbyniais ynglŷn â fy nghynllun triniaeth yn llawn gwybodaeth ac i'w gwerthfawrogi'n fawr iawn."*

*"Mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn barod eu cymwynas, ac maen nhw'n tawelu ein meddwl bob amser."*

### Gofal gydag urddas

Mae Deintyddfa Bracla wedi darparu gofal deintyddol i gleifion o fewn ardal Pen-y-bont ar Ogwr am fwy na thri deg o flynyddoedd. O'r wybodaeth a dderbyniwyd gennym (ugain holiadur AGIC, saith o holiaduron y practis ei hun, a'r cleifion y buom yn siarad â nhw), roedd yn amlwg bod cleifion yn credu bod safon y gofal a gynigiwyd gan y practis hwn yn rhagorol. Roedd pob rhan o'r adeilad yn lân, yn estynedig, yn fodern ac wedi'i goleuo'n dda. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn hyderus ac yn hapus â'r gwasanaethau yr oeddent yn eu derbyn gan yr holl staff. Roedd man ar wahân ar gael i drafod unrhyw faterion yn gyfrinachol, pe bai angen.

### Gofal amserol

Cadarnhaodd yr wybodaeth o'r holl holiaduron a'r sgysiau a gafwyd â chleifion mai anaml iawn yr oedd oedi mewn apwyntiadau ac os oedd hynny'n digwydd, rhoddwyd esboniad ac ymddiheuriad bob amser. Dywedodd cleifion wrthym eu

bod nhw'n gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol 'allan o oriau' ac roedd y rhan fwyaf o gleifion yn gwybod sut i wneud cwyn. Roedd system apwyntiadau hyblyg hefyd ar waith i ymateb i anghenion cleifion unigol.

Cadw'n iach

Dyweddodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron a'r rhai y buom yn siarad â nhw eu bod nhw wedi derbyn digon o wybodaeth ynglŷn â'u triniaeth a'u cynlluniau gofal. Roedd y practis yn ymroddedig iawn i hyrwyddo iechyd, fel y gwelwyd gan nifer o bosteri a oedd wedi'u harddangos drwyddi draw. Roedd amrywiaeth eang o daflenni gofal iechyd ar gael i gleifion a dwy daflen arall, un a oedd yn rhoi cyngor ynglŷn â chostau a buddion cynllun gofal deintyddol â'r llall a oedd yn ymwneud ag ethos y practis - ei werthoedd, maint darpariaeth y gwasanaeth a ffactorau risg ysmegu ac yfed alcohol.

### Gofal unigol

Gwelsom dystiolaeth bod system gan y practis ar gyfer casglu adborth gan gleifion drwy ddsbarthu ei holiaduron ei hun, a thrafodwyd yr adborth hwn yn ystod y cyfarfodydd staff rheolaidd. Gwelsom restrau prisiau a gweithdrefnau cwyno a oedd wedi'u harddangos ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat a manylion cyswllt AGIC. Roedd gan y practis bolisi i gydnabod unrhyw gwynion yn ysgrifenedig o fewn 24 awr pe na bai modd eu datrys yn syth ac ymateb ysgrifenedig o fewn un wythnos weithio. Gwelsom dystiolaeth o lyfr cofnodi cwynion, nad oedd yn cynnwys 'dim' cofnodion, ac roedd staff yn falch o hyn. Cyflwynodd y practis gopiâu o'r cofnod cwynion i'r Bwrdd Iechyd Lleol bob tair mis hefyd.

Roedd parcio i gleifion ar gael y tu blaen i ran allanol y practis, a oedd yn lân ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda. Roedd y cyfleusterau i gleifion ag anabledau yn rhagorol o ran mynediad i gadair olwyn, toiled lawr grisiau, a'r ddolen sain a oedd wedi'i gosod hefyd.



## ***Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol***

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roeddem yn fodlon ar y camau iechyd a diogelwch a gynhaliwyd yn y ddau leoliad a'r polisïau a oedd ar waith yn y practis. Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a chanfod bod angen gwelliannau. Gwnaethom argymhell bod y deintyddion yn cynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol gyda'i gilydd er mwyn sicrhau cysondeb a rhannu gwybodaeth ac arferion gorau.**

### Gofal diogel

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y cleifion a'r staff. Gwnaethom nodi bod diffoddwyr tân wedi'u gosod yn strategol drwy'r holl adeilad a bod contract diogelwch tân ar waith. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal, yn ogystal ag archwiliadau ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd, iechyd a diogelwch, a chadw a chael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd yr adeilad wedi ei gynnal yn dda iawn, yn ysgafn, yn awyrog, ac yn groesawgar. Gwelsom fod yr holl feddygfeydd yn fodern, wedi'u cyfarparu'n dda, yn lân, yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda.

Dylid canmol ymdrechion i sicrhau a chynnal y safonau hyn.

### Rheoli heintiau.

Roeddem yn fodlon ar y camau a gymerwyd i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd gwelsom dystiolaeth bod mesurau i atal a rheoli heintiau ar waith sy'n seiliedig ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05). Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Roedd yr holl staff wedi ymgymryd â hyfforddiant dadheintio.
- Ystafell ddadheintio neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd cyfarpar diogelu personol – megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid – ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc pwrpasol i olchi dwylo

- Rhestr o swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer pob aelod o staff mewn perthynas â rheoli heintiau.
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio offer sterileiddio wedi'u cynnal a'u cadw gan gynnwys profi dyddiol
- Offer yn cael eu cadw, eu rhoi mewn bagiau, a'u dyddio yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 4.

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd a pherson a enwyd yn 'arweinydd dadheintio' a oedd yn gyfrifol am weithdrefnau rheoli heintiau a diweddarau polisïau a staff. Gwelsom fod y practis hwn yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cymorth ar gyfer unrhyw anafiadau gan offer miniog yn cael ei ddarparu gan Feddyg Teulu'r unigolyn ei hun yn y lle cyntaf, ac roedd gwasanaethau'r Adran Iechyd Galwedigaethol ar gael mewn ysbyty lleol fel system wrth gefn.

#### Cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys a chyfarpar dadebru.

Roedd gweithiwr cymorth cyntaf enwebedig gan y practis a gwnaethom nodi bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ardystiedig mewn dadebru cardio-pwlmonaidd o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom bolisi dadrebu ond ni welsom unrhyw swyddogaethau dynodedig i staff y practis pe bai argyfwng meddygol (llewyg) yn digwydd. Mae hyn yn argymhelliad yng nghanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.2.6 a 6.6.6. Dylai'r holl aelodau staff, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ddeall eu swyddogaeth pe bai argyfwng meddygol.

#### ***Yr hyn mae angen ei wella***

#### ***Mae ar staff y practis angen trefnu eu swyddogaethau a chyfrifoldebau pe bai argyfwng meddygol yn codi.***

Gwelsom fod yr holl gyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys a'r offer y mae angen eu defnyddio pan fo argyfwng meddygol o fewn dyddiad ac wedi'u cadw'n ddiogel.

#### Diogelu

Gwelsom fod gan bob un o'r pedwar deintydd a dau o'r nyrsys deintyddol dystysgrifau gwirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol/Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y practis wedi cymryd camau i sicrhau diogelwch a lles plant ac oedolion drwy gael polisïau diogelu ar gyfer plant ac oedolion ar waith. Roedd yr holl staff wedi ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn plant a gwelsom dystiolaeth bod rhai o'r staff wedi cofrestru ar gyrsiau hyfforddiant amddiffyn oedolion ym mis Ebrill a Mai 2016. Nid oedd modd rhyddhau'r holl staff ar yr un

pryd i fynychu sesiynau hyfforddiant amddiffyn oedolion ond cawsom ein sicrhau y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau bod yr holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn oedolion.

### Offer radiograffeg

Gan fod y practis yn cynnal gweithdrefnau pelydr-x gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod pob un o'r pedwar deintydd, yr hylenydd deintyddol, a'r ddau nyrs a oedd yn cynorthwyo gyda'r gweithdrefnau radiograffeg wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol mewn ymbelydredd ïoneiddio a bod goruchwylydd amddiffyn rhag ymbelydredd enwebedig yn y practis. Gwelsom bolisi diogelu rhag ymbelydredd a oedd wedi'i arwyddo yn datgan 'wedi'i ddarllen' gan y staff a thystysgrif gwirio offer radiograffeg ar gyfer pob peiriant. Roedd cytundeb ar waith ar gyfer gwasanaethau Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd. Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, ond roedd hi'n cynnwys gwybodaeth anghyflawn ac anghysondebau o ran y goruchwylydd amddiffyn rhag ymbelydredd. Nid oedd y 'rheolau lleol', gyda gwybodaeth gyflawn, yn cael eu harddangos ym mhob deintyddfa. Roeddem yn fodlon o ran materion diogelwch ond gwnaethom gynghori bod gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Ffeil Diogelu Rhag Ymbelydredd a'r 'rheolau lleol' yn cydymffurfio.

Wrth edrych ar archwiliadau sicrhau ansawdd o ansawdd delweddu, nodwyd rhai anghysondebau gennym a gwnaethom argymhell bod y practis yn cynnal archwiliad mwy cynhwysfawr.

### Gofal effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn ymgymryd â rhai archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, ac roedd ganddo bolisiau cynhwysfawr yn ymwneud â chodi a chario, diogelu data ar gyfer cleifion yn ogystal â'r staff, diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion, ac iechyd a diogelwch. Roedd asesiad risg o'r adeilad wedi ei gyflawni hefyd i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwnaethom nodi cyfathrebu rhagorol rhwng y staff eu hunain a'r cleifion a ddywedodd wrthym eu bod nhw'n mwynhau ymweld â'r practis oherwydd sirioldeb a chymwynasgarwch y staff a'r amgylchynau golau, modern a chyfforddus

### Cofnodion cleifion

Cafodd gyfanswm o un ar bymtheg o gofnodion cleifion eu hadolygu, a oedd yn caniatáu am bedwar ar gyfer pob un o'r deintyddion. Er bod y rhain yn hawdd cael gafael arnynt drwy'r system gyfrifiadurol gwnaethom nodi anghysondebau o ran cadw cofnodion rhwng y deintyddion mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Nid yw hanes cymdeithasol o ran deiet, ysmegu, ac yfed alcohol yn cael ei gofnodi bob amser. Mae hyn yn bwysig er mwyn nodi risg claf o fydredd a chanser y geg
- Nid yw sgrinio ar gyfer canser y geg yn cael ei gofnodi yn y nodiadau bob amser
- O ran archwiliadau ceg, mae angen nodi 'mewn-eneuol' ac 'all-eneuol' yn y nodiadau
- Nid yw cydsyniad cleifion yn cael ei gofnodi bob amser
- Dylai cynlluniau triniaeth ysgrifenedig gael eu rhoi i bob claf pan fydd angen triniaeth (cydsyniad deallus)
- Cofnodi cyfiawnhad radiograffeg/canfyddiadau clinigol yn nodiadau'r claf
- Argymhellir bod radiograffau'n cael eu cymryd cyn rhai triniaethau megis tynnu a gosod dannedd. Os nad oes angen radiograffau, dylai'r rhesymau gael eu cofnodi yn y nodiadau
- Roedd rhai o'r hanesion meddygol cychwynnol yn anghyflawn.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Mae angen i'r practis gynnal archwiliad cofnodion i sicrhau cysondeb rhwng pob deintydd a bod y cofnodion yn bodloni'r safonau proffesiynol.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.*

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddogaethau ac wedi gweithio yn y practis ers llawer o flynyddoedd. Roeddent yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau ac yn cael cefnogaeth dda gan reolwr y practis. Roedd y deintyddion hefyd yn awyddus i hyrwyddo dysgu ac arferion arloesol. Gwelsom y ffyrdd yr oedd y polisiau a gweithdrefnau perthnasol yn llywodraethu'r practis i helpu i hyrwyddo dysgu a datblygu ymhlith staff.

Sefydlwyd y practis deintyddol ym Mracla mwy na deng mlynedd ar hugain yn ôl ac mae llawer o'r cleifion gwreiddiol yn parhau i fynychu'r practis. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau cyfredol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol/Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwelsom dystysgrifau cofnodion AGIC wedi eu harddangos ar gyfer yr holl ddeintyddion ac roedd pob aelod o staff yn meddu ar gontract cyflogaeth ac wedi'u diogelu gan yswiriant indemniad.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff nyrsio wedi gweithio yn y practis am fwy na phymtheg o flynyddoedd. Ymhlith y pedwar deintydd a oedd yn gweithio ar adeg ein harolygiad, roedd un ohonynt wedi perchen ar y practis ers pedair blynedd ac yn cymryd cyfrifoldeb llawn dros ei reolaeth. Roedd y practis yn elwa ar reolwr practis a benodwyd a oedd hefyd yn nyrs ddeintyddol gymwysedig. Fel rheolwr y practis cafodd ei chefnogi'n frwdfrydig gan ddeintydd arall a oedd yn annog datblygiad yn y practis, technoleg, a datblygiad proffesiynol parhaus y staff yn ogystal â chyflawni rhwymedigaethau fel ymarferydd deintyddol. Roedd y practis hwn yn awyddus i ddarparu safonau uchel o ofal mewn amgylchedd modern, sydd wedi'i gyfarparu'n dda. Roedd cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol, a neilltuwyd amser ar gyfer astudio a ariannwyd gan y practis lle bo'n bosibl. Roedd y practis yn gwerthfawrogi ac yn defnyddio'r pecynnau addysgol a roddwyd gan Ddeoniaeth Cymru yn aml.

Gwelsom fod arfarniadau blynyddol ar gyfer yr holl staff a ddywedodd eu bod nhw'n gwerthfawrogi'r rhain ac yn ystyried eu bod yn ffordd o gynnal eu datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelwyd rhaglen ymsefydlu a reolwyd gan reolwr y practis ar gyfer yr aelod mwyaf newydd o staff hefyd.

Gwelsom bolisi chwythu'r chwiban ar gyfer y practis yn ogystal â pholisi 'codi pryderon' a oedd yn cael ei oruchwylio gan reolwr y practis. Cafodd cyfleoedd i drafod pryderon, syniadau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol eu gwneud yn bosibl drwy gyfarfodydd misol y practis a oedd yn cael eu cofnodi.

Roedd trefniadau llywodraethu clinigol/sicrwydd ansawdd cadarn ar waith ac anfonwyd gwybodaeth ynghylch y mesurau hyn at y Bwrdd Iechyd Lleol ym mis

Chwefror bob blwyddyn ynghyd â chyflwyno asesiad risg o Reoli Sylweddau Peryglus i lechyd ym mis Ionawr bob blwyddyn. Roedd y practis hefyd yn cynnal 'hunanarchwiliad' ar gyfer safonau rheoli heintiau, a staff penodedig a oedd yn gyfrifol am unrhyw gamau neu newidiadau i'r practis a allai ddigwydd o ganlyniad i hynny. Roedd un o'r deintyddion yn cynnal gwefan y practis hefyd.

Roedd yr holl staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, yn parchu swyddogaethau ac arbenigedd ei gilydd, ac yn dweud eu bod yn hapus o ran eu swyddogaethau ac yn mwynhau dod i'r gwaith - ac roedd hyn yn amlwg oherwydd eu cyflogaeth tymor hir yn y practis. Gwelsom fod y practis yn ddynamig, yn arloesol, yn gyfredol â thechnoleg, yn rhannu gwerthoedd ac yn awyddus i symud ymlaen. Ar y cyd, dylid canmol ymroddiad, profiadau a phroffesiynoldeb y staff a gyflogir yn y deintyddfa hwn.

#### 4. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Neintyddfa Bracla yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyfiawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 5. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>1</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>2</sup> Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>



2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisiâu a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o'r offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Atodiad A

### Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

Practis: Deintyddfa Bracla

Dyddiad yr arolygiad: 7 Mawrth 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>					
	Nid oes angen unrhyw welliannau.				
<b>Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol</b>					
8	Mae ar staff y practis angen trefnu eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau pe bai argyfwng meddygol yn codi.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.2.6; 6.6.6.	Cyfarfod staff - trafod â'r tîm, cytuno ar swyddogaethau, ychwanegu at y polisi dadebru + hysbysfwrdd y staff.  Gwirio effeithiolrwydd yn ystod yr Hyfforddiant Dadebru Cardio-pwlmonaidd blynyddol a diwygio os oes angen.	R Jones	Cyfarfod Staff. 15.06.16 24.06.16
10	Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i	Safonau lechyd a	Roedd SH wedi ychwanegu at y profformâ Arholiad nodiadau cleifion	R Jones	Yn syth yn dilyn yr

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	<p>gofnodion cleifion:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hanes cymdeithasol</li> <li>• Sgrinio canser y geg</li> <li>• Gwahaniaethu rhwng archwiliadau 'mewn-eneuol' ac 'all-eneuol'</li> <li>• Cofnodi cydsyniad cleifion</li> <li>• Darparu cynlluniau triniaeth i'r holl gleifion</li> <li>• Cyfiawnhad ar gyfer gweithdrefnau radiograffig</li> <li>• Hanesion meddygol manwl a chyflawn.</li> </ul>	<p>Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.</p>	<p>newydd safonedig ar system SE i'w llenwi gan bob deintydd ym mhob arholiad.</p> <p>Ychwanegwyd OCS at y pro fforma arholiad nodiadau cleifion safonedig.</p> <p>Ychwanegwyd IOE [arholiad mewn-eneuol] + EOE [arholiad geneuol ychwanegol] + VCG [cydsyniad llafar wedi'i roi] at y pro fforma arholiad nodiadau cleifion safonedig a bydd y VCG yn cael ei ychwanegu at yr holl nodiadau triniaeth a gofnodir.</p> <p>Cyfarfod staff - trafod â'r dderbynfa a'r holl staff i sicrhau bod pob claf yn derbyn copi FP17.</p> <p>Cyfarfod Staff - tynnu sylw'r holl ddeintyddion. Gweithredu Archwiliadau Radiograffig bob blwyddyn.</p> <p>Cyfarfod Staff - Gwirio MH yn ystod</p>	<p>R Jones</p> <p>R Jones</p> <p>J Richards</p> <p>B Jones</p> <p>B Jones</p>	<p>arolygiad.</p> <p>Yn syth yn dilyn yr arolygiad.</p> <p>Cyfarfod staff 15.06.16</p> <p>Cyflwyno archwiliadau Gorffennaf 2016</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
			pob ymweliad a gwirio'r MH sydd wedi'i gofnodi yn y nodiadau. Gwirio bob blwyddyn yn yr Archwiliad o'r Cofnodion.		
10	Mae angen i'r practis ymgymryd ag archwiliad cofnodion i sicrhau cysondeb rhwng pob deintydd a bod y cofnodion yn bodloni safonau proffesiynol.	Safonau lechyd a Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.	Adolygu gan gymheiriaid o'r broses nodi cofnodion gyda sampl o 5 cofnod am bob deintydd a thrafod cynllunio archwiliad.  Cynnal Archwiliad o'r Cofnodion bob blwyddyn i sicrhau cysondeb er mwyn bodloni'r safon hon.  Gweithredu unrhyw newidiadau sy'n ofynnol.	B Jones	Adolygiad gan gymheiriaid erbyn diwedd Mehefin 2016  Archwiliad ym mis Gorffennaf 2016.
<b>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>					
	Nid oes angen unrhyw welliannau.				

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):**.....**Rebecca Jones**.....

**Teitl:** .....**Llawfeddyg Deintyddol**.....

**Dyddiad:**.....**12.06.16**.....